



Comisiwn Brenhinol  
Henebion Cymru  
Royal Commission on the Ancient  
and Historical Monuments of Wales

# Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2021-22

Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg.  
This policy is also available in English.



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2021.

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>.



Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at: Comisiwyn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, [chc.cymru@cbhc.gov.uk](mailto:chc.cymru@cbhc.gov.uk).

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad .....	3
2. Cefndir a gofynion deddfwriaethol .....	3
3. Gwerthoedd ac egwyddorion.....	5
4. Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.....	6
5. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	6
6. Ymgynghori, cynnwys a hyfforddi .....	6
7. Arweinyddiaeth, rheolaeth a chyfrifoldebau.....	7
8. Aseidiadau effaith cydraddoldeb.....	7
9. Adroddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth .....	7
10. Cysylltiadau a gwybodaeth bellach .....	8
11. Adborth .....	8
12. Adolygu.....	8
Atodiad 1 - Diffiniadau o nodweddion gwarchoddedig .....	9

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1. Drwy'r cyfan o'r polisi hwn, mae 'cydraddoldeb' yn golygu sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu'r un cyfleoedd yn gyfartal, ac mae 'amrywiaeth' yn golygu cydnabod y gwahaniaethau rhwng pobl a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a'u parchu.
- 1.2. Y Comisiwn Brenhinol yw corff ymchwilio ac archif cenedlaethol amgylchedd hanesyddol Cymru. Ef sydd â'r rôl arweiniol o ran sicrhau y caiff treftadaeth archaeolegol, adeiledig ac arforol Cymru ei chofnodi'n awdurdodol, a bydd yn ceisio hyrwyddo deall a gwerthfawrogi'r dreftadaeth honno'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## **2. Cefndir a gofynion deddfwriaethol**

- 2.1. Cyflwynwyd Deddf Cydraddoldeb 2010 ym mis Hydref 2010 i symleiddio a chymryd lle mwy na 100 o Ddeddfau a rheoliadau gwrth-wahaniaethu blaenorol. Ar 5 Ebrill 2011, daeth dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i rym yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Disodlodd y ddyletswydd yr holl ddyletswyddau cydraddoldeb blaenorol ym meysydd hil, anabledd a rhyw.
- 2.2. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, a ategir gan ddyletswyddau penodol. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i'w chael yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae yr un fath drwy wledydd Prydain Fawr. Cafodd y dyletswyddau penodol eu creu drwy is-ddeddfwriaeth ac maent hwy'n wahanol i Gymru, Lloegr a'r Alban.
- 2.3. Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Comisiwn fodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol fel cyflogwr ac fel corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Nid enwir y Comisiwn yn Atodlen 1 nac Atodlen 2 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011, ac felly mae wedi'i eithrio o'r dyletswyddau penodol.
- 2.4. Fel cyflogwr, mae polisïau a gweithdrefnau'r Comisiwn yr un fath â rhai Llywodraeth Cymru. Nid oes rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth am ei aelodau staff gan ei fod yn cael ei

ddosbarthu'n gorff bach (corff sy'n cyflogi llai na 50 o bobl). Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â staff y Comisiwn i'w cael yn Llawlyfr Staff y Comisiwn.

2.5. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i'w gweld yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n nodi bod yn rhaid i'r sawl sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
2. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu, gan roi sylw dyledus yn arbennig i:
  - i. Diddymu neu leihau i'r eithaf anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
  - ii. Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig penodol lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
  - iii. Annog pobl â nodweddion gwarchoddedig penodol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

2.6. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn nodi bod 'diwallu anghenion gwahanol' yn golygu (ymhlith pethau eraill) cymryd camau i gymryd anabledau pobl anabl i ystyriaeth. Mae'n disgrifio 'meithrin cysylltiadau da' fel mynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau. Mae'n egluro y gall cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau. Diffinnir y nodweddion hyn yn Atodiad 1:

<b>Nodweddion Gwarchodedig (Staff)</b>	<b>Nodweddion Gwarchodedig (Defnyddwyr Gwasanaethau)</b>
Anabledd	Anabledd
Rhyw (rhywedd)	Rhyw (rhywedd)
Ailbennu rhywedd	Ailbennu rhywedd
Beichiogrwydd a mamolaeth	Beichiogrwydd a mamolaeth
Hil	Hil
Crefydd a chredo	Crefydd a chredo
Cyfeiriadedd rhywiol	Cyfeiriadedd rhywiol
Oedran	Oedran
Priodas a phartneriaeth sifil	

- 2.7. Cefnogir Polisi Iaith Gymraeg y Comisiwn gan ddeddfwriaeth wahanol, ac ni chynhwysir ef yn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Gellir cael gwybodaeth bellach am y Polisi Iaith Gymraeg ar wefan y Comisiwn.

### **3. Gwerthoedd ac egwyddorion**

- 3.1. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i roi pobl wrth galon popeth mae'n ei wneud, ac i wasanaethu pobl mewn modd ymroddgar, cyfartal a diduedd.
- 3.2. Mae'r Comisiwn yn cefnogi cyflawni agenda strategol Llywodraeth Cymru, fel y'i mynegir yn ei *Rhaglen Lywodraethu*, i symud tuag at ddyfodol '[l]lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal'. Yn fwyaf arbennig, mae'r polisi hwn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i 'creu Cymru sy'n [...] Unedig a Chysylltiedig' ac yn benodol i 'parhau â'[i] gwaith gyda phob grŵp gwarchodedig i atal camwahaniaethu ac i sicrhau cyfleoedd i bawb'. Mae'r polisi hwn hefyd yn cefnogi nod y Llywodraeth i 'hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru' drwy wneud adnoddau diwylliannol a threftadaeth yn fwy hygyrch, ac annog mwy o gyfranogiad.

## **4. Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- 4.1. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i wasanaethau, gan ei feithrin mewn amgylchedd o gydbarch ac urddas.
- 4.2. Mae hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn berthnasol i bawb, ac mae holl aelodau cymuned y Comisiwn yn gyfrifol amdano. Mae cyfrifoldeb ar holl aelodau'r gymuned i sicrhau bod y Comisiwn yn parhau'n amgylchedd cynhwysol, croesawgar, diogel a chynhyrchiol.
- 4.3. Drwy ddarparu cyfle cyfartal i bob aelod o'n cymuned, a thrwy gydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth y gymuned honno, credwn y byddwn yn cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a chymdeithasol ond hefyd yn hybu effeithiolrwydd trefniadaethol a ffyrdd arloesol o weithio a fydd yn ein helpu i gyflawni ein swyddogaethau.

## **5. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

- 5.1. Bydd y Comisiwn yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bob blwyddyn sydd â'r nod o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith y Comisiwn.
- 5.2. Bydd y gweithredoedd a nodir yn y cynllun yn rhoi eglurder a momentwm i'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Comisiwn, drwy ganolbwyntio ar faterion penodol ac adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.
- 5.3. Mae'r Comisiwn wedi ymgynghori â'i staff a defnyddwyr ei wasanaethau ar gynnwys y polisi hwn a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## **6. Ymgynghori, cynnwys a hyfforddi**

- 6.1. Bydd y Comisiwn yn parhau i ymgynghori â staff, defnyddwyr gwasanaethau ac unrhyw bartion eraill sydd â diddordeb a'u cynnwys yn y polisi hwn, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac unrhyw fentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth eraill fel y bo'n briodol.

- 6.2. Bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant i hybu ymwybyddiaeth gyffredinol o gydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw fentrau hyfforddi penodol drwy'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## **7. Arweinyddiaeth, rheolaeth a chyfrifoldebau**

- 7.1. Yr Ysgrifennydd, sy'n adrodd i'r Comisiynwyr, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Comisiwn.
- 7.2. Uwch reolwyr, rheolwyr llinell a'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaid staff â'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, am roi ar waith weithredoedd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac am hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r Comisiwn.
- 7.3. Disgwylir i bob aelod o gymuned y Comisiwn gydymffurfio â'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac ag unrhyw fentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth eraill o eiddo'r Comisiwn.

## **8. Asesiadau effaith cydraddoldeb**

- 8.1. Mae asesiad effaith cydraddoldeb yn cynnwys asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisiau, arferion a gwasanaethau ar bobl mewn perthynas â'u nodweddion gwarchoddedig. Mae'n helpu i sicrhau y cymerir anghenion pobl i ystyriaeth wrth ddatblygu a gweithredu polisi neu wasanaeth newydd, neu wrth wneud newidiadau i'n polisiau neu wasanaethau presennol.
- 8.2. Bydd asesiadau effaith cydraddoldeb yn parhau i gael eu hymgorffori yng ngwaith y Comisiwn o ddydd i ddydd.

## **9. Adroddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- 9.1. Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth unwaith bob chwarter. Bydd Arweinwyr Tîm yn rhoi adborth ar unrhyw weithredoedd priodol i'r timau unigol yn y cyfarfodydd tîm misol.

9.2. Bydd adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod haf y Comisiynwyr. Bydd yr adroddiadau hyn yn:

- Adolygu'r polisi hwn, a chynnwys unrhyw adborth a newidiadau arfaethedig;
- Adolygu cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Adrodd ar unrhyw weithgareddau dysgu a datblygu;
- Adrodd ar unrhyw weithgareddau perthnasol eraill sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn.

## 10. Cysylltiadau a gwybodaeth bellach

10.1. Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn ar ffurf dogfen bapur neu mewn fformat arall, cysylltwch â Reina van der Wiel yn [reina.vanderwiel@cbhc.gov.uk](mailto:reina.vanderwiel@cbhc.gov.uk), neu drwy ffonio 01970 621 240.

## 11. Adborth

11.1. Mae'r Comisiwn yn croesawu adborth ar ei Bolisi a'i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan ddefnyddwyr ei wasanaethau ac aelodau staff. Byddwch cystal â chysylltu â Reina van der Wiel yn [reina.vanderwiel@cbhc.gov.uk](mailto:reina.vanderwiel@cbhc.gov.uk), neu drwy ffonio 01970 621 240.

## 12. Adolygu

12.1. Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu'r polisi hwn bob blwyddyn. Ar ôl ei adolygu, caiff y polisi ei gymeradwyo gan y Comisiynwyr. Cynhelir yr adolygiad nesaf ym mis Ebrill 2022.



## Atodiad 1 - Diffiniadau o nodweddion gwarchoddedig

**Daw'r diffiniadau canlynol o nodweddion gwarchoddedig o arweiniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, ac fe'u rhestrir yn nhrefn yr wyddor.**

**Ailbennu rhywedd:** Y broses o newid o un ryw i'r llall.

**Anabledd:** Mae anabledd gan unigolyn os oes nam meddyliol neu gorfforol arno/arni sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Beichiogrwydd a mamolaeth:** Cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi yw beichiogrwydd. Cyfeiria mamolaeth at gyfnod ar ôl y geni, a chysylltir ef ag absenoldeb mamolaeth, yng nghyd-destun cyflogaeth. Pan nad yw yng nghyd-destun gwaith, mae diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn ymwneud â'r 26 wythnos ar ôl y geni, ac mae hyn yn cynnwys ymdrin â menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.

**Crefydd a chredo:** Ystyrir crefydd yn ôl ei ystyr arferol ond cynhwysa chredo gredoau crefyddol ac athronyddol, gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, nid yw credo'n perthyn i'r diffiniad hwn os nad yw wedi effeithio ar eich ffordd o fyw neu'r penderfyniadau a wnaethoch.

**Cyfeiriadedd rhywiol:** Pa un a yw atyniad rhywiol unigolyn tuag at ei ryw ei hunan, y rhyw arall neu'r ddwy ryw.

**Hil:** Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw, a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), a gwreiddiau ethnig neu genedlaethol.

**Oedran:** Mae hyn yn cyfeirio at unigolyn sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. 32 mlwydd oed) neu ystod o oedrannau (e.e. 18 - 30 mlwydd oed).

**Priodas a phartneriaeth sifil:** Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, nid yw priodas wedi'i chyfyngu bellach i uniad rhwng dyn a menyw. Mae'n cynnwys priodas rhwng cyplau o'r un rhyw hefyd.

Gall perthynas rhwng cyplau o'r un rhyw ac (yng Nghymru a Lloegr) cyplau nad ydynt o'r un rhyw gael ei chydabod yn gyfreithiol yn 'bartneriaeth sifil' hefyd. Rhaid peidio â thrin partneriaid sifil yn llai ffafriol na chyplau priod (ac eithrio pan gaiff ei ganiatáu gan y Ddeddf Cydraddoldeb).

**Rhyw (rhywedd):** Bod yn ddyn neu'n fenyw. Ynghylch rhywedd: y rolau a pherthnasoedd cymdeithasol ehangach sy'n strwythuro bywydau dynion a menywod. Mae'r rhain yn newid dros gyfnod o amser ac yn amrywio o ddiwylliant i ddiwylliant.